**Rhif:** WG29110

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Cofrestru gweithwyr ieuenctid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978 1 4734 6982 2

# Cofrestru gweithwyr ieuenctid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pob corff sy'n rhan o'r meysydd addysg, gan gynnwys undebau, awdurdodau lleol, y sector gwaith ieuenctid, cyrff dyfarnu a sefydliadau cenedlaethol ac elusennau. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a'r adborth a gafwyd ynghylch y cynnig sy'n ymwneud â chofrestru gweithwyr ieuenctid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg o 1 Ebrill 2017. |
| **Camau I'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygiad Proffesiynol<br>Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: ewc.enquiries@Wales.GSI.Gov.UK |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau |

# Cynnwys

**Cefndir** **2**
**Yr ymgynghoriad** **3**
**Crynodeb o'r ymatebion** **4**
Cwestiwn 1 4
Cwestiwn 2 5
Cwestiwn 3 6

# Cefndir

Roedd Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Deddf 2014) yn ad-drefnu ac yn ailenwi Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (‘CyngACC’); yn estyn cylch gorchwyl y corff; ac yn diwygio cyfansoddiad aelodaeth y Cyngor, er mwyn creu Cyngor y Gweithlu Addysg (“y Cyngor”). Daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2015, sef yr un dyddiad ag y cafodd y gofyniad i reoleiddio gweithwyr proffesiynol ei ymestyn i athrawon Addysg Bellach yn ogystal ag athrawon ysgol. O fis Ebrill 2016, bydd cofrestru’n cael ei ymestyn i weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion/AB.

Er i Lywodraeth Cymru fynd ati i nodi’r proffesiynau yr oedd yn ofynnol iddynt gofrestru gyda’r Cyngor (o dan Atodlen 2 i Ddeddf 2014), nid oedd hyn yn golygu na fyddai modd cofrestru grwpiau eraill yn y dyfodol, fel Gweithwyr Ieuenctid ac ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith; sydd hefyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at addysg a hyfforddiant ein plant a phobl ifanc.

Mae Deddf 2014 yn creu fframwaith sy’n galluogi Llywodraeth Cymru i ychwanegu categorïau cofrestru newydd, os a phan mae’n briodol; ac yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y cynnig yw, o fis Ebrill 2017, y bydd rhaid i unigolion gofrestru gyda’r Cyngor er mwyn gallu gweithio mewn rhai meysydd o Waith Ieuenctid yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau ar gynigion Llywodraeth Cymru i gofrestru gweithwyr ieuenctid yng Nghymru.

## Yr ymgynghoriad

Dosbarthwyd yr ymgynghoriad ar draws sawl sector allweddol gan ddefnyddio rhwydweithiau amrywiol.

Daeth 47 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad i law.

Derbyniwyd ymatebion gan y sectorau canlynol
:

| Ymatebydd | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cyrff Dyfarnu | 3 |
| Undebau | 6 |
| Prifysgolion a Cholegau | 3 |
| Awdurdodau Lleol | 13 |
| Sefydliadau Cenedlaethol ac Elusennau | 13 |
| Mudiadau Gwirfoddol | 5 |
| Unigolion | 4 |
| **Cyfanswm** | **47** |

Mae'r ddogfen hon yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad wedi'u strwythuro ar sail yr ymatebion i bob cwestiwn. Nid yw'n ceisio trafod pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, ond mae'n tynnu sylw at y materion a'r themâu allweddol. Mae rhestr o ymatebwyr a'u hymatebion ar gael yn yr Atodiad amgaeedig.

# Crynodeb o'r ymatebion

## Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno y byddai ymestyn cofrestru gweithwyr proffesiynol i gynnwys y sector Gweithwyr Ieuenctid yn helpu i wella ansawdd y gwasanaeth a roddir i bobl ifanc yng Nghymru?

**Ymateb i'r ymgynghoriad:**

Derbyniwyd 47 ymateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr (34) yn cytuno y byddai'r cynnig i gofrestru gweithwyr ieuenctid yn cyfrannu at wella ansawdd gwasanaethau pobl ifanc, nid oedd 7 o ymatebwyr yn cytuno; ac nid oedd 6 wedi rhoi ymateb neu ateb pendant.

O'r 34 o ymatebion cadarnhaol, roedd nifer sylweddol gan weithwyr ieuenctid a oedd yn gweithio mewn awdurdodau lleol a sefydliadau eraill. Fel gydag ymgynghoriad 2012, mae cefnogaeth o hyd i gofrestru, sy'n cael ei ystyried yn gam cadarnhaol. Nodwyd mwy o gydnabyddiaeth i'r rheini yn y sector, gwella statws ac ansawdd gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc, sicrhau proffesiynoldeb; a sicrwydd ychwanegol ar addasrwydd unigolion i ymarfer.

Crybwyllodd y 6 ymatebwr nad oedd yn cytuno y pryderon canlynol:

- roedd pryderon y gallai sefydliadau wneud cais am weithwyr ieuenctid â chymhwyster y Cydgyngor Trafod Telerau (JNC) lle nad oedd angen un, a allai effeithio'n negyddol ar y sector gwirfoddol;
- byddai defnyddio cymwysterau i ddiffinio 'gweithiwr ieuenctid proffesiynol' yn gwahaniaethu yn erbyn y rhai sydd wedi meithrin profiad yn y maes;
- roedd ymatebion hefyd gan sefydliadau crefyddol a oedd yn galw am i weithwyr ieuenctid mewn eglwysi gael eu heithrio rhag gorfod cofrestru.

Gwnaeth yr ymatebwyr y sylwadau canlynol i'r cwestiwn hwn:

- Ydw, rydw i'n cytuno â'r cynnig gan fy mod yn credu y bydd yn gwella statws proffesiynol Gwaith Ieuenctid ac yn galluogi gweithwyr i barhau i weithio mewn lleoliadau amrywiol yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

- Mae hyn yn gwbl amlwg, ar lefel athronyddol. Mae pobl ifanc yn haeddu gweithwyr cymwys proffesiynol/sy'n cael eu gwerthfawrogi.

- Credaf y bydd cofrestru yn helpu i ategu rheoleiddio; safoni; atebolrwydd a hunaniaeth broffesiynol y proffesiwn gan gyfrannu at wella ansawdd gwasanaeth. Gallai'r proffesiwn fod yn fwy atyniadol hefyd i grŵp ehangach o weithwyr proffesiynol.

- Mae'r Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS) yn hyderus bod cofrestru yn gam cadarnhaol i sicrhau ansawdd gwasanaeth i bobl ifanc yng Nghymru.

- Rwy’n rhagweld y byddai sefydliadau yn gwneud cais am weithwyr ieuenctid â chymwysterau'r Cydgyngor Trafod Telerau lle na fyddai eu hangen mewn gwirionedd, ac i’r gwrthwyneb. Gallaf weld hyn yn arwain at system ddarpariaeth ddwy haen a fyddai’n cael effaith niweidiol ar bobl ifanc a’r cyfleoedd a roddir iddynt.

- Gan fod/y gellid bod digon o ‘ansawdd’ y tu hwnt i gymwysterau.

- Mae gweithwyr ieuenctid Cristnogol yn rhan o’r gwaith o ddysgu credoau Cristnogol ac mae’r syniad y dylai pob gweithiwr ieuenctid cymwys orfod cofrestru â chorff seciwlar i allu ymarfer eu swyddogaeth grefyddol yn amhriodol ac yn groes i gyfraith hawliau dynol.

## Cwestiwn 2

*Ydych chi’n cytuno y bydd cofrestru’r ddwy swydd (fel y nodir ym mharagraff 6.2), yn y lle cyntaf, yn sicrhau ansawdd a phroffesiynoldeb unigolion sy’n cael eu cyflogi fel gweithwyr ieuenctid ac yn diogelu eu teitl a’u statws?*

**Ymateb i’r ymgynghoriad:**

Derbyniwyd 47 o ymatebion i’r cwestiwn hwn ac roedd nifer uchaf yr ymatebwyr (32) yn cytuno y bydd cofrestru yn sicrhau ansawdd a phroffesiynoldeb unigolion, nid oedd nifer fach (9) yn cytuno, ac ni ymatebodd neu ni roddodd gweddill yr ymatebwyr (6) ateb pendant.

O’r 32 o atebion cadarnhaol, roedd y mwyafrif gan weithwyr ieuenctid/ gwasanaethau ieuenctid a oedd yn teimlo y bydd cofrestru yn amddiffyn y teitl “gweithiwr ieuenctid” ac y bydd proffesiynoldeb yn sicrhau ansawdd gwasanaeth. Roedd galwad hefyd gan weithwyr ieuenctid/ gwasanaethau ieuenctid i ymestyn y gofyniad i’r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, roeddynt yn cydnabod y gallai’r rhai gyda’r cymwysterau perthnasol gofrestru’n wirfoddol; ac nad oedd gofynion cofrestru pellach wedi’u diystyru.

O’r nifer fach nad oedd yn cytuno â’n cynigion, y prif bryderon oedd bod angen gwneud mwy o waith ar y diffiniad o weithiwr ieuenctid gan fod llawer o swyddi a chyfrifoldebau’n cael eu dosbarthu o dan y teitl hwn. Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd gweithwyr ieuenctid yn ffitio’n naturiol o fewn cylch gwaith Cyngor y Gweithlu Addysg ac y gallai hyn gael effaith niweidiol ar y corff. Tra bod rhai o’r sector gwirfoddol yn credu y byddai hyn yn eithrio’r ymarferwyr hyn ymhellach gan y byddai cymwysterau yn cael blaenoriaeth dros brofiad a’r gallu i wneud y gwaith.

Gwnaeth yr ymatebwyr y sylwadau canlynol i’r cwestiwn hwn:

- Mewn perthynas ag amddiffyn teitl a statws, cyn belled â bod y cyfleoedd a roddir gan Gyngor y Gweithlu Addysg ar gael i bawb ar y gofrestr, mae Grŵp

y Prif Swyddogion Ieuenctid yn hyderus y bydd hyn yn swyddogaeth allweddol yn y broses.

- Mae ETS yn cytuno mai'r ddau gategori o weithwyr ieuenctid/gweithwyr cymorth ieuenctid a nodir ym mharagraff 6.2 y ddogfen ymgynghori yw'r categorïau priodol ar gyfer cofrestru.

- Yn draddodiadol, mae gwaith ieuenctid yn disgyn o fewn y sbectrwm addysg ffurfiol i anffurfiol ehangach, ond yn gyffredinol mae'n gweithredu y tu allan i'r addysg a ddarperir drwy addysg ysgol ffurfiol. Gallai cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg gynorthwyo i gynnwys mwy o waith ieuenctid a gweithwyr ieuenctid mewn lleoliadau addysg ffurfiol, er budd dysgwyr, drwy roi mwy o gydnabyddiaeth i waith ieuenctid fel dull addysg effeithiol.

- Mae Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn cytuno bod diffinio'r ddwy lefel o gymhwysedd a statws, fel y pennir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol, yn sicrhau bod y safonau cenedlaethol a'r cyfraddau cyflog yn cael eu gweithredu'n gyson yng Nghymru. Maent hefyd yn darparu llwybr dilyniant clir ar gyfer datblygu proffesiynol.

- Bydd hyn yn tanbrisio llawer o staff profiadol a allai fod â phrofiadau bywyd a digon i'w gyfrannu at y rôl, er nad oes ganddynt gymwysterau ffurfiol. Nid ydym yn y sector gwirfoddol yn gweithio i'r Cydgyngor Trafod Telerau (gan na allwn dalu'r gyfradd hon yn barhaus). Y goblygiadau yw na fydd sefydliadau'n gallu ennill contractau ar gyfer gwaith yn y sector Addysg ac er y bydd gan rai aelodau staff gymwysterau gradd, efallai na fydd y rhain ym meysydd Ieuenctid a'r Gymuned.

- Mae UCAC yn teimlo bod cynnwys y grŵp hwn o weithwyr fel aelodau o Gyngor y Gweithlu Addysg yn mynd ag aelodaeth y corff gam yn rhy bell, ac yn ei gwneud yn anoddach cadw ffocws priodol ar flaenoriaethau'r gweithlu addysg. Felly, gallai fod yn niweidiol i Gyngor y Gweithlu Addysg ei hun a'i hygrededd.

## Cwestiwn 3

*Rydym wedi gofyn cwestiynau penodol. Oes oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt*

**Ymateb i'r ymgynghoriad:**

Nid bwriad y cwestiwn olaf oedd cymell ateb, ond galluogi i ymatebwyr gofnodi eu syniadau a'u sylwadau cyffredinol. O'r 47 o ymatebion a dderbyniwyd, dim ond 27 o ymatebwyr a ddarparodd sylwadau ac roedd yr ymatebion yn cynnwys materion amrywiol.

Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cwestiwn hwn i bwysleisio y bydd cofrestru'n golygu y bydd gweithwyr ieuenctid yn cael eu trin fel cydweithwyr proffesiynol, gan wella eu statws ac ansawdd y gwasanaeth. Roedd ymatebwyr yn hapus bod rôl y sector gwirfoddol yn cael ei chydnabod wrth ddatblygu'r cynigion hyn, ond yn benderfynol bod gwirfoddolwyr yn cael eu heithrio rhag cofrestru gorfodol – er mwyn peidio ag ansefydlogi'r sector hwnnw.

Roedd rhai ymatebion gan sefydliadau eglwysig sydd wedi'u codi yn sgil ymgynghoriad arall ar leoliadau addysg y tu allan i'r ysgol. Maent yn daer nad oes gan y wladwriaeth y pŵer i reoleiddio dysgeidiaeth yr eglwys neu blismona gwaith ieuenctid yr eglwys. Maent yn dweud y byddai hyn yn torri deddfwriaeth sy'n rhan greiddiol o'r Magna Carta, a bod eglwysi eisoes yn cydymffurfio â gofynion diogelu; ac nad oes angen y mesurau hyn.

Codwyd rhai materion newydd mewn perthynas â chyllid wedi'i neilltuo a sefydlu Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol, roedd y rhain gan sefydliadau gwirfoddol sy'n bryderus am eu dyfodol eu hunain.

Roedd llawer o faterion hefyd a oedd wedi'u codi yn ystod yr ymgynghoriadau blaenorol fel ffioedd cofrestru ac aelodaeth â Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae'r rhain y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn; fodd bynnag, ni roddodd y sector gwaith ieuenctid unrhyw sylwadau pan ymgynghorwyd ar y materion hyn ac roeddynt yn gefnogol i bob diben. Bydd cyfle pellach i roi sylwadau ar ffioedd cofrestru pan fydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori'n ddiweddarach eleni ar fodel ffioedd newydd ar gyfer 2017.

Gwnaeth yr ymatebwyr y sylwadau canlynol i'r cwestiwn hwn:

- Mae swyddi gweithwyr ieuenctid yn cael eu cwtogi ac mae ein hunaniaeth broffesiynol yn cael ei chamddeall. Credaf y bydd bod yn rhan o'r gofrestr hon yn helpu i atgyfnerthu ein hunaniaeth ac y bydd yn gam cadarnhaol ymlaen i bobl ifanc y dyfodol.

- Rwy'n cytuno ac yn credu bod angen i ni amddiffyn teitl gweithwyr ieuenctid ac yna efallai y bydd gan y proffesiwn gwaith ieuenctid statws pwysicach. Fel gyda gwasanaethau eraill, mae'n amlwg bod gweithwyr sydd o bosibl yn gwneud y gwaith am yr arian ac mae angen mynd i'r afael â hyn a byddai hynny'n digwydd pe bai cofrestru'n cael ei gyflwyno. Ond pa gymhelliant a fyddai'n cael ei gynnig i weithiwr dan gontract 3 awr yr wythnos o gael ei gofrestru?

- Mae'r egwyddor na ddylai'r wladwriaeth ymyrryd yn nysgeidiaeth yr eglwys wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth ers y Magna Carta. Dyletswydd canghennau eraill o waith ieuenctid yw penderfynu a ydynt am gael eu rheoleiddio gan y wladwriaeth yn y ffordd a gynigir. Ar ran Cristnogion ac eglwysi yng Nghymru, awgrymwn dri ateb posibl:

i. Anghofio'r cynigion

ii. Eithrio pob gweithiwr ieuenctid yn y sector gwirfoddol ac elusennol; neu
iii. Eithrio pob gweithiwr ieuenctid mewn eglwysi neu unrhyw elusen sydd ag amcan elusennol crefyddol o'r angen i gofrestru a chael eu rheoleiddio gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

- Mewn gwirionedd mae'r gwasanaethau ieuenctid a gynhelir gan y cyngor yn fwy tebygol o ddarparu datblygiad yn y gweithlu ar gyfer eu gweithwyr. Yna, mae hyn yn creu sefyllfa lle gellid galw sefydliad fel fy un i yn 'amhroffesiynol'. Byddai hyn yn ergyd andwyol wrth gynnig am gontractau a gwneud cais am grantiau. Os bydd cronfeydd a chyrsiau addas yn cael eu creu fel bod y cyfleoedd addysg a datblygiad y gweithlu yn gydradd rhwng y ddau sector, byddai'n rhesymol disgwyl i sefydliad gael 'gweithwyr proffesiynol' neu bobl yn gweithio tuag at hynny. Dyma ni eto mewn asiantaeth gwaith ieuenctid cenedlaethol a chyllid wedi'i neilltuo.

- Mae hwn yn gam priodol, serch hynny ni fyddem am weld hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys gwirfoddolwyr a all fod yn gwirfoddoli am rai oriau yn unig heb dderbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol. Gallai unrhyw gam i'r cyfeiriad hwn achosi gostyngiad sylweddol ym maint ac amrywiaeth y gweithgareddau a gynigir i bobl ifanc.

- Sut bydd cymwysterau proffesiynol yn cael eu hamddiffyn yn yr hinsawdd sydd ohoni pan fydd telerau ac amodau'r Cydgyngor Trafod Telerau yn cael eu gwrthod gan gyflogwyr - mae angen gwahanu cymwysterau o'r telerau ac amodau.